

## Llyfr Log Myfyrwyr Sgiliau Arian a Chyllid

### Lefel 2 - Uned 14

-----

#### Uned 14 Cynllunio Gweithgaredd Menter

##### 14.1 Sefydlu menter

Yn yr uned hon, mae angen i chi ddychmygu eich bod yn sefydlu busnes bach neu'n codi arian ar gyfer rhywbeth. Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Business Enterprise* (FA6) a chwblhewch y gweithgareddau isod.

Defnyddiwch y tudalennau gwag ar ddiwedd yr uned hon os na fydd gennych ddigon o le.

Os oes angen syniadau arnoch am fathau o fentrau gallai [www.mysmallbiz.com](http://www.mysmallbiz.com) gyfeirio eich meddwl at weithgareddau am elw neu ewch i [www.raisingmoneyforcharity.org.uk](http://www.raisingmoneyforcharity.org.uk) ar gyfer mentrau codi arian.

##### 14.1.1 Gweithgaredd 1

Nodwch weithgaredd menter y byddwch yn gallu ei wneud ar eich pen eich hun neu gyda grŵp bach. I'ch helpu i gynllunio gweithgaredd menter bydd angen i chi fod yn glir am eich cynnyrch neu'ch gwasanaeth ac am bwy fydd eich cwsmeriaid.

Paratowch gyflwyniad PowerPoint i'w roi i'ch grŵp neu'ch cyd-ddisgyblion. Dylech gynnwys:

- Disgrifiad clir o'ch nwydd neu'ch gwasanaeth (AC 1.1)
- Beth fydd eich cynnyrch neu'ch gwasanaeth yn darparu i'r cwsmer (AC 1.1)
- Sut y byddwch chi'n darparu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth (AC 1.1)
- Un math o gwsmer fydd yn prynu eich cynnyrch neu'ch gwasanaeth (AC 1.1)
- Pam mae'r cwsmer yn debygol o brynu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth. (AC 1.2)

! Cofiwch gynnwys eich cyflwyniad gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.

##### 14.1.2 Gweithgaredd 2

Nawr mae angen i chi wneud cynlluniau ar gyfer eich gweithgaredd menter. (AC 2.1)

a) Lluniwch linell amser manwl sy'n cynnwys yr holl weithgareddau pwysig; gallwch ychwanegu'r tabl isod neu greu eich tabl eich hun. Os byddwch yn creu eich cynllun eich hun, cofiwch ei **gadw** gyda'ch llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.

Gweithgaredd	Dyddiad cychwyn	Amser i gwblhau (oriau/dyddiau)	Dyddiad gorffen
Amser gweinyddu <b>Nodiadau a risgiau</b>			
Paratoi / cynhyrchu <b>Nodiadau a risgiau</b>			
Hyrwyddo <b>Nodiadau a risgiau</b>			

<b>Nodiadau a risgiau</b>
<b>Nodiadau a risgiau</b>
<b>Nodiadau a risgiau</b>

Bydd angen i chi fesur y galw tebygol gan gwsmeriaid ar gyfer eich cynnyrch. Dylech gynnwys yn eich cynllun pwy yw'r prif gwsmer targed ac unrhyw gwsmeriaid eraill, gan esbonio pam y byddan nhw'n prynu eich cynnyrch a pham efallai na fyddan nhw'n ei brynu.

.....

.....

.....

.....

Fyddwch chi'n gallu rhedeg y fenter eich hun neu a fydd angen help arnoch chi? Os bydd angen help arnoch chi, sut byddwch chi'n annog y bobl hyn i'ch helpu neu a fydd rhaid i chi eu talu? Dylech gynnwys hyn yn eich cynllun.

.....

.....

.....

b) Cyflwynwch daenlen, yn cynnwys amcan o'ch costau ar gyfer cynhyrchu, hyrwyddo a gwerthu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth. Bydd defnyddio fformiwla yn Excel yn caniatáu i chi newid eich rhagdybiaethau. Mae enghraifft isod, ond bydd pob cynnyrch neu wasanaeth yn amrywio. Gallwch naill ai ychwanegu at y tabl isod neu greu eich tabl eich hun ar Excel a'i anfon gyda'ch Llyfr Log wedi'i gwblhau.

Costau a ragwelir			
	Enghraifft		Eich Gweithgaredd
Disgrifiad		Disgrifiad	£
Cynhyrchiad		Cynhyrchiad	
<i>Deunyddiau</i>	<i>£50</i>		
<i>Llafur</i>	<i>am ddim</i>		
<i>Trydan</i>	<i>£10</i>		
Hyrwyddo		Hyrwyddo	
<i>Posterï</i>	<i>£20</i>		
<i>Tafleenni</i>	<i>£40</i>		
Gwerthu		Gwerthu	
<i>Stondin Sêl Cist Car</i>	<i>£5</i>		

<i>Petrol</i>	£5		
Cyfanswm Costau	£130	Cyfanswm Costau	

c) Cyfrifwch faint y dylech chi godi am eich cynnyrch neu'ch gwasanaeth.

.....

.....

ch) Dangoswch faint o'ch cynnyrch y byddwch yn ei wneud neu faint o wasanaethau rydych yn bwriadu eu gwerthu.


.....

.....

**14.1.3 Gweithgaredd 3**

Mae'n bwysig eich bod yn meddwl beth allai fynd o'i le gyda'ch gweithgaredd menter ac ystyried ffyrdd o leihau'r risg hwnnw. Lluniwch fap meddwl (naill ai drwy gwblhau'r map isod neu lunio un eich hun) i gynnwys: (AC 3.1)

- a) o leiaf ddau risg posibl allai ddigwydd i'ch gweithgaredd menter
- b) awgrym ar gyfer pob un ynghylch sut y gellid ei leihau.



**adiwch:**

**Aseswch pa un yw'r risg mwyaf fyddai'n golygu na fydd eich menter yn llwyddo ac esboniwch sut byddwch yn ceisio sicrhau na fydd yn effeithio arno.**

.....  
.....  
.....

! Cofiwch - os ydych chi'n creu eich map meddwl eich hun cynhwyswch e gyda'ch Llyfr Log sydd wedi ei gwblhau.